



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Astudiaeth o barcio yn Llanfair-ym-Muallt

Dyddiad cyhoeddi: 11 Chwefror 2020
Camau i'w cymryd: ymatebion erbyn 5 Mai 2020

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Gymraeg.
This document is also available in Welsh.

Trosolwg

Ar hyn o bryd mae Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, ar ran Llywodraeth Cymru, yn cynnal Astudiaeth Parcio ar yr A483 Heol Garth, Llanfair-ym-Muallt.

Byddem yn hoffi clywed eich barn ar y newidiadau arfaethedig i'r rhwydwaith cefnffyrdd yn y lleoliad hwn.

Mae'r ymgynghoriad yn cynnwys cyfres o gwestiynau penodol a byddai Llywodraeth Cymru'n croesawu eich ymateb ar y rhain.

Sut i ymateb

Dylid cwblhau a dychwelyd y ffurflen ymateb i'r cyfeiriad isod erbyn 5 Mai 2020.

Gwybodaeth bellach a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Mae'r ddogfen ar gael yma:

<https://llyw.cymru/astudiaeth-o-barcio-yn-llanfair-ym-muallt>

Manylion Cyswllt

Am fwy o wybodaeth:

Cyfeiriad:

Ymgynghoriad Heol Garth – Llanfair-ym-Muallt
RHADBOST
Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
Conwy LL31 9RZ

Ebost: garthroadbuilthwells@powys.gov.uk

Dylid cynnwys **Parcio Heol Garth** yn y llinell pwnc.

Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgyszerir â gwaith o'r fath dim ond o dan contract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:
Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

Mae manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fel a ganlyn:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Rhif ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>


e-bost:

Data.ProtectionOfficer@gov.wales

Rhagarweiniad

Ar hyn o bryd mae Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, ar ran Llywodraeth Cymru, yn cynnal Astudiaeth Parcio ar hyd yr A483T Heol Garth, Llanfair-ym-Muallt. Mae'r sefyllfa bresennol yn cael effaith negyddol ar symudiadau traffig a diogelwch pawb sy'n defnyddio'r ffordd.

Cynllun o'r Lleoliad



Cefndir

Yr A483 yw un o'r prif gefnffyrdd rhwng y Gogledd a De Cymru, sy'n cysylltu Abertawe a Chaer. Tref ym Mhowys yw Llanfair-ym-Muallt, sy'n sefyll ar gydlifiad yr Afonydd Gwy ac Irfon, o fewn sir hanesyddol Brycheiniog. Mae'r A483 a'r A470 yn cydgyfarfod yn Llanfair-ym-Muallt, er mwyn defnyddio'r Bont dros yr Afon Gwy i groesi'r afon, cyn rhannu eto ym mhentref Llanellwedd, gyda'r A470 yn mynd i gyfeiriad y Gogledd Orllewin, a'r A483 i gyfeiriad y Gogledd Ddwyrain.

Fel un o gyn trefi'r porthmyn, ychydig iawn o newid a welodd Llanfair-ym-Muallt i'r rhwydwaith ffyrdd dros y blynyddoedd. Mae'r dref yn llawn strydoedd cul, ac mae gofyn i gerbydau deithio drwy'r rhain er mwyn symud trwy'r dref. Mae'r A483 wedi teilwra ei hunan i weddu i gynllun y drefn, ac mae'r ffordd yn rhannu mewn un man, gyda dwy adran yn rhedeg ochr yn ochr â'i gilydd ar gyfer traffig dwy ffordd ar yr A483. Heol Garth yw un o'r adrannau hyn, lle mae achosion o gerbydau sy'n parcio mewn ffordd amhriodol yn cael eu cofnodi'n aml, sy'n arwain at risg i ddiogelwch cerddwyr a gyrwyr.

Datblygiad

Comisiynwyd Cyngor Sir Powys, ar ran Llywodraeth Cymru, i ymchwilio i broblemau parcio ar hyd Heol Garth fel rhan o astudiaeth ddichonoldeb.

Mae'r astudiaeth parcio wedi tynnu sylw at broblem parcio amhriodol ar hyd Heol Garth, sy'n cynyddu'r risg potensial i bobl sy'n defnyddio'r ffordd ac sy'n lleihau lled y ffyrdd, gyda'r potensial i gyfyngu llif y traffig ar hyd yr adran hon o'r A483.

Mae'r Astudiaeth wedi cynnig pedwar opsiwn i'w hystyried ymhellach, sef;

- a) Gadael y sefyllfa fel y mae
- b) Gwaharddiad newydd sy'n atal parcio ar unrhyw adeg gyda manau parcio
- c) System unffordd trwy Heol Garth
- ch) System unffordd newydd, sy'n cysylltu Heol Garth, Heol y Parc a Stryd yr Eglwys.

Ffurflen Ymateb

Diolch am dreulio amser yn llenwi'r holiadur isod. Mae eich barn yn bwysig inni.

Gofynnir ichi adolygu'r manylion o ran yr opsiynau arfaethedig i wella Heol Garth, Llanfair-ym-Muallt, ac anfon eich sylwadau atom erbyn 5 Mai 2020.

Gellir gweld yr wybodaeth am yr opsiynau naill ai yn ystod y sesiwn galw heibio yn Antur Gwy, Llanfair-ym-Muallt ar dydd Iau 19 Mawrth 2020, o dau o'r gloch tan chwech o'r gloch neu drwy'r wefan <https://llyw.cymru/astudiaeth-o-barcio-yn-llanfair-ym-muallt>. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y cynigion, bydd y tîm prosiect fydd yn bresennol yn y sesiwn galw heibio'n hapus i helpu.

Gellir dychwelyd yr holiadur yn yr amlen a ddarperir at y cyfeiriad RHADBOST isod, neu gellir ei gyflwyno i aelod o'r tîm prosiect yn y sesiwn galw heibio, neu gellir ei anfon trwy ebost at: garthroadbuilthwells@powys.gov.uk

Ymgynghoriad Heol Garth Llanfair-ym-Muallt
RHADBOST
Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
Conwy LL31 9RZ

Fel arall, gallwch lenwi'r holiadur ar-lein, sydd ar gael trwy'r wefan uchod.

Ymgynghori Ffurflen Ymateb

Eich enw:

Sefydliad (lle bo'n berthnasol):

E-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Cwestiwn 1: Pam ydych chi'n defnyddio Heol Garth? (Dewiswch bob opsiwn sy'n berthnasol ichi).

Yn byw ar Heol Garth Nid wyf yn byw yn Llanfair-ym-Muallt

Yn byw yn Llanfair-ym-Muallt

Rheswm arall, noder manylion:

Cwestiwn 2: Wrth deithio ar y gefnffordd yma, pa ddull trafnidiaeth a ddefnyddir? (Dewiswch bob opsiwn sy'n berthnasol ichi).

Cerdded Beic

Beic modur Gyrru

Dull arall – noder manylion:

Cwestiwn 3: Yn eich barn chi, oes problemau diogelwch gyda'r ffordd fel y mae ar hyn o bryd?

a) Y ddwy lôn bresennol ar Heol Garth

Oes

Nag oes

b) Trefniadau parcio presennol ar Heol Garth

Oes

Nag oes

c) Cyfleusterau presennol i Gerddwyr ar Heol Garth

Oes

Nag oes

Os taw 'oes' oedd eich ateb i unrhyw un o'r problemau diogelwch yng nghwestiwn 3, noder yn y blwch isod eich pryderon o safbwynt diogelwch a'r sefyllfa bresennol.

Cwestiwn 4: Os taw 'oes' oedd eich ateb i gwestiwn 3, yn eich barn chi sut bydd y cynigion yn effeithio ar y pryderon hyn? Dewiswch un ar gyfer bob un o'r cynigion isod.

- a) Gadael pethau fel y mae nhw
- b) Gwaharddiad newydd unrhyw adeg gyda manau parcio
- c) System unffordd trwy Heol Garth
- ch) System unffordd newydd i gysylltu Heol Garth, Heol y Parc a Stryd yr Eglwys

a) b) c) ch)

- 1. Yn gwella diogelwch – yn dileu pryderon diogelwch
- 2. Ychydig o welliant o ran diogelwch – yn dileu'r pryderon diogelwch i raddau
- 3. Dim newid – y pryderon diogelwch dal yr un peth.
- 4. Ychydig o leihad o ran diogelwch - pryderon diogelwch yn gwaethygu rhywfaint.
- 5. Diogelwch yn gwaethygu – pryderon diogelwch yn gwaethygu neu'n ychwanegu pryderon eraill.

	a)	b)	c)	ch)
1. Yn gwella diogelwch – yn dileu pryderon diogelwch				
2. Ychydig o welliant o ran diogelwch – yn dileu'r pryderon diogelwch i raddau				
3. Dim newid – y pryderon diogelwch dal yr un peth.				
4. Ychydig o leihad o ran diogelwch - pryderon diogelwch yn gwaethygu rhywfaint.				
5. Diogelwch yn gwaethygu – pryderon diogelwch yn gwaethygu neu'n ychwanegu pryderon eraill.				

Gofynnir ichi ymhelaethu ar y rhesymau dros eich atebion yn y blwch isod.

Cwestiwn 5: A fyddwch cystal â sgorio'r gwelliannau yn eich dewis trefn, gan ddefnyddio rhifau 1, 2, 3 a 4 (1 dewis a ffefir, 4 y dewis lleiaf dymunol).

Opsiynau Gwella	Dewiswch sgôr (1 i 4)
a) Gadael pethau fel y mae nhw	
b) Gwaharddiad newydd ar unrhyw adeg gyda mannau parcio	
c) System unffordd trwy Heol Garth	
ch) System unffordd newydd sy'n cysylltu Heol Garth, Heol y Parc a Stryd yr Eglwys	

Cwestiwn A: Mae dyletswydd arnom i ystyried effeithiau ein polisïau ar yr iaith Gymraeg, o dan ofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai astudiaeth o barcio yn Llanfair-ym-Muallt yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau allai fod, yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

Cwestiwn B: Eglurwch hefyd sut ydych chi'n credu y gall arfaethedig astudiaeth o barcio yn Llanfair-ym-Muallt gael ei lunio neu ei newid er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cwestiwn C: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol, defnyddiwch y lle hwn i sôn amdanynt:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi. I gadw eich ymateb yn ddiennw (gan gynnwys cyfeiriadau ebost) ticiwch y blwch.